Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Ehangu rôl diffoddwyr tân yng Nghymru

## Adolygiad Thematig 2021 gan Brif Gynghorydd Tân ac Achub ac Arolygydd Cymru

© Hawlfraint y Goron 2021 WG43934 ISBN digidol 978-1-80391-347-6

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad a chefndir | Tudalen 2 |
| Crynodeb Gweithredol | Tudalen 3 |
| Prif ganfyddiadau | Tudalen 6 |
| Methodoleg | Tudalen 7 |
| Dadansoddiad o ddefnydd gweithredol | Tudalen 9 |
| Dadansoddiad o weithgarwch wedi'i raglennu | Tudalen 12 |
| Hyfforddi ac ymarfer | Tudalen 14 |
| Lleihau risg | Tudalen 16 |
| Materion yn ymwneud â manteisio ar gapasiti ychwanegol | Tudalen 17 |
| Dadansoddiad o weithgarwch y tu allan i'r orsaf nad yw'n ymwneud â digwyddiadau | Tudalen 19 |
| Dadansoddiad o ddata digwyddiadau Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) | Tudalen 20 |
| Cydnabyddiaethau | Tudalen 23 |
| Argymhellion | Tudalen 24 |

## Cyflwyniad a chefndir

Ym mis Tachwedd 2020, cymeradwyodd Cabinet Llywodraeth Cymru gynnig i ehangu rôl y Gwasanaeth Tân ac Achub i gefnogi'r GIG. Yn dilyn y gymeradwyaeth hon, cafodd Gweithgor Ehangu'r Rôl ei ymgynnull, yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Tân ac Achub, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST), Byrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru. Drwy'r Gweithgor, cytunwyd ar fanyleb amlinellol a fyddai'n galluogi diffoddwyr tân yng Nghymru i gyflawni dyletswyddau ychwanegol i gefnogi cydweithwyr ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r fanyleb yn cynnwys ymateb i ddigwyddiadau fel ataliad ar y galon y tu allan i'r ysbyty, ymateb i bobl sydd wedi cwympo ond nad ydynt wedi'u hanafu ac atal cwympiadau.

Ar adeg ysgrifennu, mae rhagor o waith ymgysylltu ar y gweill gyda rhanddeiliaid allweddol ynghylch sut y gellid mynd ati'n ymarferol i ehangu'r rôl er mwyn rhoi sicrwydd i unrhyw gynigion. Er mwyn dod i gytundeb, byddai'n rhaid i unrhyw gynigion gael eu cyfeirio at y Cydbwyllgor Cenedlaethol er mwyn eu datblygu i setliad a drafodwyd.

Yn fy rôl fel Prif Gynghorydd Tân ac Achub, rwyf wedi cynnal adolygiad o'r capasiti a geir yn nhri Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru i gyflawni'r gwaith ychwanegol sy'n deillio o ehangu'r rôl, er mwyn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i Weinidogion y gellir gwneud hyn yn ddiogel a heb amharu ar y swyddogaethau craidd.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r adolygiad hwnnw.

## Crynodeb gweithredol

Amcan yr adolygiad hwn oedd sefydlu a oes gan Wasanaeth Tân ac Achub Cymru y capasiti i ysgwyddo'r gwaith ychwanegol i gefnogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol, heb amharu ar y swyddogaethau craidd.

Mae'r adolygiad yn dangos bod cyfraddau defnyddio cyfarpar y Gwasanaeth Tân ac Achub (amser cyffredinol a gaiff ei dreulio mewn digwyddiadau) yn isel ar draws y tair system ddyletswydd sydd ar waith yng Nghymru. Yn y gorsafoedd tân â'r lefelau uchaf o weithgarwch gweithredol ledled Cymru, roedd y cyfraddau defnyddio yn amrywio o 0.3% o gyfanswm yr amser sydd ar gael yn y system ar ddyletswydd yn ôl y galw (RDS) i 8.1% o gyfanswm yr amser sydd ar gael yn y system sifftiau amser cyflawn.

Roedd y data a ddarparwyd gan WAST yn cwmpasu ataliad ar y galon y tu allan i'r ysbyty a digwyddiadau cwympwyr nad ydynt wedi'u hanafu ledled Cymru ar gyfer y cyfnod 2017/18 - 2019/20 yn gynhwysol. Mae dadansoddiad o ddata WAST yn dangos bod lefelau gweithgarwch ar eu huchaf yn ystod sifft ddydd amser cyflawn bresennol y Gwasanaeth Tân ac Achub (0900 – 1800) ond mae'r cyfnodau brig rhwng 0700 – 1200 sy'n cwmpasu 2 awr olaf sifft nos bresennol y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Hyd y digwyddiadau WAST mwyaf cyffredin yw 31 – 60 munud, er bod rhai achosion pan oedd yr amser a gafodd ei dreulio gyda'r claf yn fwy na 4 awr.

Dangosodd y dadansoddiad fod capasiti sylweddol yn y system sifftiau amser cyflawn (2 x sifft ddydd 9 awr, wedi'u dilyn gan 2 x sifft nos 15 awr, wedi'u dilyn gan pedwar diwrnod i ffwrdd) sydd fel arfer yn syrthio rhwng 2200 - 0700 ar y sifft nos lle na cheir prin ddim neu ddim gweithgarwch wedi'i raglennu a phan mae lefelau gweithgarwch digwyddiadau'r Gwasanaeth Tân ac Achub ac WAST ar eu hisaf.

Yr hyn y mae'r dadansoddiad hefyd yn ei ddangos, yn fy marn i, yw y dylai mwy o amser gael ei neilltuo i weithgarwch hyfforddiant, ymarfer a lleihau risg yn y system sifftiau amser cyflawn drwy wneud mwy o ddefnydd o'r capasiti hwn, ni waeth beth a gytunir o ran ehangu'r rôl. Beth bynnag, mae angen adolygiad sylfaenol o drefniadau gwaith gorsafoedd i sicrhau bod gweithgarwch yn cael ei amserlennu'n briodol i sicrhau'r allbwn mwyaf. Er enghraifft, ni fyddai'n realistig rhaglennu hyfforddiant ymarferol ar fuarth gorsaf mewn ardal breswyl neu gynnal ymweliadau diogelwch cartref o 2200 – 0700. Fodd bynnag, ceir gweithgarwch y gellir ei raglennu yn ystod yr amseroedd hyn sy'n cael ei gynnal ar y sifft ddydd ar hyn o bryd, er enghraifft gwaith cynnal a chadw arferol, glanhau cyfarpar neu hyfforddiant ystafell ddosbarth.

Byddai'r gofyniad i ddyrannu mwy o amser i weithgareddau hyfforddiant, ymarfer a lleihau risg yn cael ei ddwysáu os bydd y gofyniad amser ychwanegol sy'n deillio o ehangu'r rôl yn ffactor sy'n cael ei ystyried, am fod y dadansoddiad yn dangos bod digwyddiadau WAST yn gyson uchel yn ystod y sifft ddydd amser cyflawn. Mae i hyn oblygiadau o ran blinder a risg, sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn. Ceir hefyd gofyniad amser na ellir ei feintioli eto sy'n deillio o weithgareddau atal cwympiadau.

Mae'r dadansoddiad yn dangos nad oes unrhyw gapasiti heb ei ddyrannu yn y system criwio dydd amser cyflawn bresennol am fod gweithgarwch wedi'i raglennu drwy gydol y sifft. Mae arferion gwaith criwio dydd yn cynnig hyd at fwy na dwywaith yr amser a gaiff ei neilltuo ar gyfer hyfforddiant, ymarfer a lleihau risg nag sydd yn y system sifftiau. Fodd bynnag, mae'r Llyfr Llwyd yn pennu 7 awr wrth gefn o'r 42 awr yr wythnos a gontractir o gyfeiriad cartref yn y system criwio dydd. Er mwyn cyflawni 42 awr yr wythnos dros gyfnod cyfeirio 8 diwrnod, byddai angen i sifftiau bara 12 awr. Yn ymarferol, mae'r 7 awr wrth gefn gartref yn arwain at sifftiau 10 awr (gan gydnabod 9 awr 30 munud yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru). Mae Gwasanaethau Tân ac Achub yn Lloegr wedi manteisio ar y capasiti hwn drwy gyflwyno sifftiau dydd 12 awr yn y systemau dyletswydd criwio dydd.

Mae cyfraddau defnyddio Gwasanaethau Tân ac Achub yn y system ddyletswydd yn ôl y galw yn is nag ar y systemau dyletswydd criwio sifft neu ddydd. Mae hyn i'w ddisgwyl am fod gorsafoedd dyletswydd yn ôl y galw yn gwasanaethu ardaloedd â phoblogaethau cymharol isel a/neu lefelau cymharol isel o risg tân ac achub.

Yn ôl eu contractau, mae'n ofynnol i ddiffoddwyr tân dyletswydd yn ôl y galw fynd i'w gorsaf dân am 2-3 awr yr wythnos ar noson driliau felly ni ddylai effaith rôl ehangach ar hyfforddiant, ymarfer a lleihau risg fod yn sylweddol, ar yr amod nad yw diffoddwyr tân yn cael eu galw allan yn ystod y cyfnod hwn. Yn y termau symlaf, felly, mae capasiti yn y system i ysgwyddo'r ymatebion ychwanegol i ddigwyddiadau iechyd a gynigir drwy'r rôl ehangach.

Yn ddiamau, bydd materion yn ymwneud â blinder a risg yn codi i ddiffoddwyr dyletswydd yn ôl y galw yn sgil ysgwyddo ymatebion ychwanegol, am ei bod yn anochel y bydd nifer ohonynt yn digwydd dros nos. Erys y materion hyn yn gyfrifoldeb y prif gyflogwr fel y maent ar hyn o bryd, fodd bynnag, ynghyd ag effaith cyfnodau estynedig o amser i ffwrdd o'r prif weithle. A dweud hynny, dylai'r Gwasanaeth Tân ac Achub barhau i fonitro achosion o alw ar ddiffoddwyr dyletswydd yn ôl y galw am unrhyw ddigwyddiadau andwyol posibl, fel pan fydd yr un cyfarpar (a'r criw) yn ymateb i alwadau lluosog neu hir gyda'r nos.

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd a Chanolbarth a Gorllewin Cymru, bydd cost ychwanegol yn gysylltiedig â defnyddio diffoddwyr tân ar ddyletswydd yn ôl y galw, am eu bod yn cael eu talu ar y gyfradd fesul awr am bob galwad ynghyd â lwfans aflonyddu. Mae De Cymru yn gweithredu cynllun cyflogau ar gyfer diffoddwyr tân dyletswydd yn ôl y galw a byddai'r trefniant hwn yn debygol o osgoi'r mwyafrif o gostau ychwanegol sy'n deillio o ymatebion ychwanegol.

Pan gaiff data digwyddiadau WAST eu troshaenu â data digwyddiadau presennol a gweithgarwch wedi'i raglennu y Gwasanaeth Tân ac Achub, mae'r angen i greu capasiti ychwanegol yn y system dyletswydd sifftiau yn benodol o'r pwys mwyaf. Yn ddi-au, caiff ychwanegu llwyth gwaith WAST ac unrhyw weithgarwch atal cwympiadau effaith ar weithgarwch risg-gritigol a raglennir, y bydd angen i lawer ohono gael ei ail-raglennu i'w gynnwys yng nghyfnod gorffwys y sifft nos bresennol.

Bydd hyn yn golygu bod hyd presennol y sifft nos yn anghynaladwy o safbwynt blinder a risg, ac felly bydd angen mynd i'r afael â hyn os bydd y rôl i gael ei hehangu. Yn syml, mae'n annhebygol y bydd modd rhaglennu cyfnod ystyrlon o orffwys i'r arferion

gwaith, a fyddai'n golygu y byddai cynnydd sylweddol mewn blinder a risg wrth weithio sifft lawn 15 awr, yn enwedig ar y sifft nos ddilynol 9 awr yn ddiweddarach. Yr ateb yw trefnu bod y sifftiau nos a'r sifftiau dydd yr un hyd, gan gynyddu'r bwlch rhwng sifftiau nos i 12 awr, er mwyn rhoi cyfnod ystyrlon o orffwys oddi ar ddyletswydd, neu leihau hyd sifftiau i 8 awr, er mwyn cynnig saib o 16 awr o leiaf rhwng sifftiau.

Er bod mwy o amser ar gyfer gweithgarwch hyfforddiant, ymarfer a lleihau risg yn y system criwio dydd nag yn y system sifftiau, byddai'r ymatebion ychwanegol yn sgil ehangu'r rôl yn effeithio ar yr amser hwn. Er mwyn creu mwy o gapasiti yn y system criwio dydd i wrthbwyso'r effaith hon, gallai'r Gwasanaeth Tân ac Achub ystyried trosi'r 7 awr wrth gefn gartref yn oriau cadarnhaol yn yr orsaf, a fyddai'n cael eu defnyddio ar gyfer gweithgarwch hyfforddi, ymarfer neu leihau risg, ynghyd ag ymateb yn uniongyrchol i ddigwyddiadau. Mae'r pwynt diwethaf yn arbennig o berthnasol i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, lle mae'r sifft criwio dydd yn dechrau am 1200 ar hyn o bryd, sy'n golygu y byddai'r amser brig ar gyfer galwadau WAST yn digwydd yn ystod y cyfnod dyletswydd yn ôl y galw.

## Prif ganfyddiadau

Yn gryno, dyma ganfyddiadau arwyddocaol yr adolygiad:

- Mae capasiti i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ddarparu cefnogaeth i'r GIG gan ddefnyddio ei adnoddau presennol. Mae cyfraddau defnyddio a galw ar gyfarpar yn isel, gan adlewyrchu llwyddiant parhaus y Gwasanaeth Tân ac Achub i leihau achosion o danau ac argyfyngau eraill.
- Fodd bynnag, yn y system sifftiau amser cyflawn, mae'r capasiti hwnnw yn bodoli'n bennaf yn ystod y sifft nos, ac yn benodol, y cyfnod rhwng 2200 - 0700. Mewn gwrthgyferbyniad, yn ystod y dydd y mae'r oriau brig ar gyfer digwyddiadau yn ymwneud ag iechyd, yn benodol yn ystod y cyfnod rhwng 0700 - 1200. Byddai'n rhaid i unrhyw weithgarwch atal cwympiadau gael ei gynnal yn ystod y sifft ddydd yn bennaf.
- Er mwyn manteisio ar y capasiti hwn felly, bydd rhaid newid arferion gwaith gorsafoedd presennol yn y system sifftiau amser cyflawn, fel bod bron yr holl ddyletswyddau yn yr orsaf yn cael eu rhaglennu fel mater o drefn i'r sifft nos.
- Bydd hyn yn arwain at oblygiadau o ran blinder a risg y byddai angen mynd i'r afael â nhw drwy drefnu bod sifftiau dydd a nos yr un hyd.
- Yn fy marn i, mae newidiadau o'r fath yn angenrheidiol yn y system sifftiau amser cyflawn beth bynnag, ni waeth beth a gytunir o ran ehangu'r rôl. Nid yw'r system sifftiau bresennol yn bodloni canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, ac nid yw ychwaith yn rhoi digon o amser, yn fy marn i, ar gyfer gweithgarwch hyfforddi, ymarfer a lleihau risg, y mae pob un ohonynt yn hanfodol i ddiogelwch diffoddwyr tân a diogelwch cyhoeddus.

Rwyf wedi gwneud argymhellion i roi'r canfyddiadau hyn ar waith, a chânt eu rhestru ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

## Methodoleg

Ar 9 Mehefin 2021, ysgrifennais at y tri Phrif Swyddog Tân yn rhoi gwybod iddynt am fy mwriad i gynnal Adolygiad Thematig o gapasiti'r Gwasanaeth Tân ac Achub i ysgwyddo'r cyfrifoldebau ychwanegol sy'n codi o ehangu'r rôl. Yn y llythyr, gofynnais i'r Prif Swyddogion Tân enwebu un pwynt cyswllt yn eu Gwasanaeth Tân ac Achub y gallwn gydgysylltu ag ef er mwyn cael data i lywio'r adolygiad. Nodais hefyd mewn dogfen ar wahân y fethodoleg yr oeddwn yn bwriadu'i defnyddio yn yr adolygiad, ynghyd â'r rhesymeg. Mae copi o'r ddogfen Fethodoleg wedi'i atodi i'r adroddiad hwn.

Mae'r Adolygiad yn canolbwyntio ar 4 maes.

i. Dadansoddiad o ddefnydd gweithredol sy'n pennu'r amser y bydd y cyfarpar a ddewiswyd ar gyfer yr adolygiad yn cael eu defnyddio mewn digwyddiadau.
ii. Dadansoddiad o weithgarwch nad yw'n ymwneud â digwyddiadau wedi'i raglennu ymlaen llaw drwy adolygiad o arferion gwaith gorsafoedd. Mae enghreifftiau o weithgarwch o'r fath yn cynnwys hyfforddiant risg-gritigol a chynnal sgiliau (y cyfeirir atynt fel hyfforddiant ac ymarfer yn yr adroddiad hwn) neu gasglu Gwybodaeth Risg sy'n Benodol i Safle (SSRI) ac ymweliadau diogelwch cartref (y cyfeirir atynt fel lleihau risg yn yr adroddiad hwn)
iii. Dadansoddiad o weithgarwch i ffwrdd o'r orsaf nad yw'n ymwneud â digwyddiadau er mwyn pennu'r amser y bydd y cyfarpar tân a ddewiswyd yn cael ei ddefnyddio i ffwrdd o'r orsaf ar weithgarwch nad yw'n ymwneud â digwyddiadau (gweithgarwch lleihau risg nodweddiadol)
iv. Dadansoddiad o'r gweithgarwch tebygol sy'n deillio o ehangu'r rôl i droshaenu â'r tri maes blaenorol er mwyn pennu i ba raddau y gall effeithio ar y gweithgarwch craidd

Mae tair system ddyletswydd ar waith yng Nghymru; sifftiau amser cyflawn (2 x sifft ddydd 9 awr, wedi'u dilyn gan 2 x sifft nos 15 awr, wedi'u dilyn gan 4 diwrnod i ffwrdd), criwio dydd amser cyflawn (4 x sifft ddydd gyda phob sifft ddydd wedi'i dilyn ar unwaith gan gyfnod o gyflenwi yn ôl y galw, wedi'i ddilyn gan 4 diwrnod i ffwrdd) a sifftiau dyletswydd yn ôl y galw (diffoddwyr tân ar alw yn darparu hyd at 120 o oriau'r wythnos yn ymateb i ddigwyddiadau, ac sy'n byw fel arfer o fewn 5 munud i orsaf), a elwir yn ddyletswydd yn ôl y galw.

At ddibenion dadansoddi defnydd gweithredol, gwnaethom ddewis, mewn cydweithrediad â'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub a gyda'u caniatâd, y gorsafoedd mwyaf gweithredol (yn seiliedig ar ddata digwyddiadau hanesyddol) o bob system ddyletswydd (6 gorsaf o bob Gwasanaeth Tân ac Achub, cyfanswm o 18 gorsaf). Noder: Nid yw Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn gweithredu'r system dyletswydd criwio dydd ar hyn o bryd felly gwnaethom ddewis tair sifft a thair gorsaf dyletswydd yn ôl y galw. Os oedd gan yr orsaf fwy nag un cyfarpar diffodd tân rheng flaen, gwnaethom gynnal dadansoddiad defnydd o bob cyfarpar rheng flaen yn yr orsaf, y mae rhai ohonynt yn cael eu criwio gan ddefnyddio systemau dyletswydd

gwahanol[1]. Gwnaethom hefyd gynnal dadansoddiad o gyfarpar arbennig sylfaenol â chriwiau yn y gorsafoedd a ddewiswyd.

Y rheswm dros ddewis y gorsafoedd â'r lefelau uchaf o weithgarwch o ran digwyddiadau yn hanesyddol, oedd pennu effaith fwyaf dwys o ysgwyddo unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol ar y sail y byddai'r effaith yn ôl bob tebyg yn llai ar orsafoedd eraill â lefelau is o weithgarwch o ran digwyddiadau.
Roedd y dadansoddiad yn cwmpasu'r tair blwyddyn ariannol hyd at a chan gynnwys 2019/20. Mae hyn i gydnabod yr effaith y gallai cyfyngiadau COVID-19 fod wedi'i chael ar weithgarwch i ffwrdd o'r orsaf yn ystod 2020/21.

Mae'r dadansoddiad o arferion gwaith gorsafoedd a gweithgarwch i ffwrdd o'r orsaf nad yw'n ymwneud â digwyddiadau yn ystyried y system sifftiau amser cyflawn a'r system dyletswydd criwio dydd yn unig. Nid wyf wedi adolygu'r mathau hyn o weithgarwch yn y system dyletswydd yn ôl y galw oherwydd, yn ôl eu contractau, dim ond am 2-3 awr yr wythnos y mae'n ofynnol i ddiffoddwyr tân yn y system hon fod yn eu gorsaf leol am noson ddriliau. Er y gall fod yn ofynnol i ddiffoddwyr tân ar ddyletswydd yn ôl y galw gyfrannu hyd at 120 awr yr wythnos yn ôl eu contractau, mae'r argaeledd hwn bron yn gyfan gwbl at ddibenion ymateb i ddigwyddiadau o fewn cyfnod dynodedig o amser (fel arfer 5 munud o'r rhybudd i gyrraedd yr orsaf ac yna ymateb i'r digwyddiad).

Gwnaethom ofyn bod WAST yn rhoi data i ni am yr holl ymatebion i achosion o ataliad ar y galon y tu allan i'r ysbyty a chwympwyr nad ydynt wedi'u hanafu. Gwnaethom ofyn yn benodol am amser a hyd y digwyddiad, y gwnaethom eu hystyried fel set ddata 'amser a dreulir gyda chlaf' WAST ar ôl cytuno gyda'n cydweithwyr WAST y byddai hyn yn adlewyrchu orau yr amser y byddai'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn debygol o'i dreulio mewn digwyddiadau WAST. Roedd hyn er mwyn ein galluogi i droshaenu'r digwyddiadau WAST yn ôl eu hyd ac amser y dydd gyda data'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Cafodd y data hyn eu dadansoddi gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar ein rhan, a echdynnodd y data a oedd yn benodol i ardaloedd y gorsafoedd yn ein hadolygiad, a'u cyflwyno ar fapiau gwres yn ôl ardal Gwasanaeth Tân ac Achub, gan dynnu sylw at y gorsafoedd a ddewiswyd, yn ogystal ag ar fformat graff, ar sail Cymru gyfan.

Cynhaliodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru dreial ymateb i bobl oedd wedi cwympo ond nad oeddent wedi'u hanafu, rhwng mis Awst 2016 a mis Mai 2018. Darparodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ddata ar gyfer y treial hwn ar amser yr alwad a'r amser yn y lleoliad sy'n fwyaf tebyg i fetrig WAST o'r amser a dreulir gyda chlaf. Nid yw data'r treial wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn am nad yw'n cynnwys ymatebion i ataliad ar y galon y tu allan i ysbyty, ac nid oedd yn cwmpasu cyfnod llawn 24 awr y dydd. Fodd bynnag, mae'n cyfateb yn agos i ddata WAST.

[1] Er enghraifft, mae gan Wrecsam ddau gyfarpar rheng flaen amser cyflawn ac un cyfarpar dyletswydd yn ôl y galw, mae gan Fangor a Chaerfyrddin un cyfarpar criwio dydd ac un cyfarpar dyletswydd yn ôl y galw.

Nid yw'n bosibl meintioli'r galw ychwanegol o ran y gweithgarwch a all godi o'r gwaith atal cwympiadau. Fodd bynnag, er mwyn iddo gael effaith ystyrlon, byddai'n rhaid i nifer yr ymyriadau fod yn sylweddol.

## Dadansoddiad o ddefnydd gweithredol

Mae'r tabl isod yn darparu crynodeb o gyfraddau defnyddio'r cyfarpar a ddewiswyd o bob Gwasanaeth Tân ac Achub. Er bod pob ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau bod y data'n gadarn, mae'n bosibl na fydd y tabl, mewn rhai achosion, yn cynnwys galwadau pan gafodd cyfarpar ei droi yn ôl cyn cyrraedd digwyddiad neu lle cafodd cyfarpar ei alw i fod wrth gefn mewn gorsaf arall fel trefniant strategol. Nid yw hepgor y galwadau hyn yn cael fawr ddim effaith ar y gyfradd defnyddio gyffredinol.

**Nifer yr oriau y mae cyfarpar yn cael ei ddefnyddio, a chanran yr amser y mae'n cael ei ddefnyddio.**

| | | | Oriau defnyddio | | | Canran yr amser defnyddio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | System Ddyletswydd | Arwydd Galwad | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
| **Canolbarth a Gorllewin Cymru** | | | | | | | | |
| Treforys | Amser Cyflawn | WM44P1 | 591.5 | 643.2 | 551.8 | 6.8 | 7.3 | 6.3 |
| | RDS | WM44P2 | 150.7 | 128.6 | 98.1 | 1.7 | 1.5 | 1.1 |
| Abertawe Canolog | Amser Cyflawn | WM45P1 | 669.6 | 710.7 | 672.0 | 7.6 | 8.1 | 7.7 |
| Pontardawe | Criwio Dydd | WM56P1 | 277.8 | 280.3 | 261.1 | 3.2 | 3.2 | 3.0 |
| Caerfyrddin | Criwio Dydd | WM62P1 | 431.7 | 353.0 | 312.8 | 4.9 | 4.0 | 3.6 |
| | RDS | WM62P2 | 188.2 | 92.7 | 102.6 | 2.1 | 1.1 | 1.2 |
| Y Drenewydd | RDS | WM01M2 | 74.2 | 81.7 | 71.0 | 0.8 | 0.9 | 0.8 |
| | RDS | WM01P1 | 213.4 | 206.2 | 251.6 | 2.4 | 2.4 | 2.9 |
| Gorseinon | RDS | WM41P1 | 215.4 | 266.1 | 234.9 | 2.5 | 3.0 | 2.7 |
| **Gogledd Cymru** | | | | | | | | |
| Wrecsam | Amser Cyflawn | WN37P1 | 375.3 | 375.2 | 434.9 | 4.3 | 4.3 | 5.0 |
| | Amser Cyflawn | WN37P2 | 511.2 | 484.1 | 481.4 | 5.8 | 5.5 | 5.5 |
| | RDS | WN37P3 | 34.0 | 42.6 | 79.8 | 0.4 | 0.5 | 0.9 |
| | Amser Cyflawn | WN37R1 | 8.3 | 10.2 | 12.2 | 0.1 | 0.1 | 0.1 |
| Glannau Dyfrdwy | Amser Cyflawn | WN38P1 | 312.7 | 375.5 | 320.0 | 3.6 | 4.3 | 3.6 |
| | RDS | WN38P2 | 76.4 | 104.9 | 60.5 | 0.9 | 1.2 | 0.7 |
| Bangor | Criwio Dydd | WN2P1 | 225.6 | 314.9 | 294.0 | 2.6 | 3.6 | 3.3 |
| | RDS | WN2P2 | 28.2 | 83.8 | 53.0 | 0.3 | 1.0 | 0.6 |
| Caernarfon | Criwio Dydd | WN1P1 | 213.0 | 275.3 | 272.9 | 2.4 | 3.1 | 3.1 |
| Treffynnon | RDS | WN42P1 | 134.5 | 220.4 | 94.0 | 1.5 | 2.5 | 1.1 |
| Johnstown | RDS | WN43P1 | 63.3 | 144.9 | 120.4 | 0.7 | 1.7 | 1.4 |
| **De Cymru** | | | | | | | | |
| Caerdydd Canolog | Amser Cyflawn | WS51P1 | 462.5 | 431.1 | 487.1 | 5.3 | 4.9 | 5.5 |
| | Amser Cyflawn | WS51P2 | 681.9 | 657.6 | 619.7 | 7.8 | 7.5 | 7.1 |
| | Amser Cyflawn | WS51A4 | 82.7 | 92.4 | 68.2 | 0.9 | 1.1 | 0.8 |
| Y Rhath | Amser Cyflawn | WS50P1 | 488.4 | 567.1 | 543.6 | 5.6 | 6.5 | 6.2 |
| Malpas | Amser Cyflawn | WS45P1 | 378.1 | 426.1 | 397.7 | 4.3 | 4.9 | 4.5 |
| | Amser Cyflawn | WS45R5 | 100.6 | 113.2 | 120.0 | 1.1 | 1.3 | 1.4 |
| Y Fenni | RDS | WS40P1 | 161.3 | 229.5 | 167.1 | 1.8 | 2.6 | 1.9 |
| | RDS | WS40P2 | 41.3 | 65.1 | 30.4 | 0.5 | 0.7 | 0.3 |
| Pontyclun | RDS | WS14P1 | 135.3 | 130.7 | 129.9 | 1.5 | 1.5 | 1.5 |
| Abertyleri | RDS | WS35P1 | 114.7 | 172.9 | 149.7 | 1.3 | 2.0 | 1.7 |

Nodyn: Mae'r llythyren olaf mewn arwydd galwad yn nodi'r math o beiriant. Mae "P" yn dynodi peiriant pwmpio rheng flaen; "A" teclyn awyr (hy ysgol neu blatfform estynedig) ; "R" yw teclyn achub trwm ac "M" yw pwmp cyfaint uchel .

Mae nifer y galwadau a'r cyfraddau defnyddio ar draws y tair system ddyletswydd yn isel. Mae hyn i'w ddisgwyl ac mae'n arwydd o lwyddiant y Gwasanaeth Tân ac Achub i reoli a lleihau nifer y digwyddiadau. Dylai cyfraddau defnyddio'r Gwasanaeth Tân ac

Achub fod yr isaf ymhlith yr holl wasanaethau brys. Yn wir, byddai'n drychinebus pe na baent.


Roedd cyfraddau defnyddio ar gyfer cyfarpar mewn gorsafoedd sifft ledled Cymru yn amrywio rhwng 3.6% yng Nglannau Dyfrdwy (WN38P1) yn 2017/18 a 2019/20 i 8.1% yn Abertawe Canolog (WM45P1) yn 2018/19.

Roedd cyfraddau defnyddio ar gyfer cyfarpar arbennig â chriw sifft yn amrywio o 0.1% ar gyfer yr Uned Achub yn Wrecsam (WN37R1) (pob blwyddyn) i 1.4% ar gyfer yr Uned Achub ym Malpas (WS45R5) yn 2019/20. Dim ond i fathau penodol o ddigwyddiadau neu ar gais y caiff y cyfarpar ei alw, felly mae'r gyfradd ddefnyddio is yn gwbl ddisgwyliedig.

Roedd y cyfraddau defnyddio ar gyfer cyfarpar yn y gorsafoedd â chriwiau dydd yng Nghanolbarth a Gorllewin a Gogledd Cymru yn amrywio rhwng 2.4% yng Nghaernarfon (WN1P1) yn ystod 2017/18 i 5% yng Nghaerfyrddin (WM62P1) yn ystod 2017/18.

Roedd cyfraddau defnyddio ar gyfer cyfarpar mewn gorsafoedd dyletswydd yn ôl y galw ledled Cymru yn amrywio rhwng 0.3% yn y Fenni (WS40P2) yn ystod 2019/20 a Bangor (WN2P2) yn ystod 2017/18 i 3% yng Ngorseinon (WM41P1) yn ystod 2018/19.

Mae cyfraddau defnyddio fel arfer yn uwch ar y sifft nos na'r sifft ddydd, sydd i'w ddisgwyl am fod lefelau gweithgarwch yn cynyddu gyda'r nos – er enghraifft o ganlyniad i danau coginio domestig a thanau glaswellt a gwastraff bach a gaiff eu cynnau'n fwriadol. Mae lefelau gweithgarwch ar draws y tri Gwasanaeth Tân ac Achub a'r tair system ddyletswydd yn gymharol gyson o ran mae nifer y digwyddiadau yn dueddol o gynyddu ganol prynhawn cyn cyrraedd eu hanterth tua 1700 - 2100. Mae'r amser gwirioneddol a dreulir mewn digwyddiadau ar y sifft ddydd fel arfer tua'r un faint neu ychydig llai na'r amser a dreulir mewn digwyddiadau rhwng 1800 - 0000 ar y sifft nos.




Mae'r lefelau defnydd yn ystod cyfnod gorffwys y sifft nos rhwng 0000 - 0700 yn isel. Y lefel defnydd uchaf a gofnodwyd ar gyfer cyfarpar amser cyflawn oedd yr ail gyfarpar yng Nghaerdydd Canolog (WS51PS), gyda lefel defnydd o 167. 4 awr (6.6%) ar gyfer y flwyddyn 2017/18. Y lefel defnydd isaf a gofnodwyd oedd ar gyfer y cyfarpar yng Nglannau Dyfrdwy (WN38P1) gyda defnydd cyffredinol o 46.5 awr (1.8%) ar gyfer y flwyddyn 2017/18.

Er gwaethaf y cyfraddau defnydd isel yn ystod y cyfnodau gorffwys, mae diffoddwyr tân yn dal i gael eu galw i ddigwyddiadau lle mae gofyn iddynt weithredu. Mae goblygiadau i hyn o ran blinder a risg, yn enwedig oherwydd y cyfnod byr oddi ar ddyletswydd rhwng y sifft nos gyntaf a'r ail (9 awr), sy'n llai na'r cyfnod gofynnol statudol, sef 11 awr, ac nid yw'n cydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a nodir yn nogfen 'HSG 256 Managing shift work: Health and safety guidance'. Dyma'r sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd, heb ystyried unrhyw weithgarwch ychwanegol ac, felly, mae'n rhywbeth y dylai'r Gwasanaeth Tân ac Achub ei ystyried beth bynnag fo'r canlyniad o ran ehangu'r rôl neu cyn ystyried sut y gellid manteisio orau ar gapasiti ychwanegol er mwyn cyflawni mwy o weithgarwch hyfforddi, ymarfer a lleihau risg (gweler isod).

## Dadansoddiad o weithgarwch wedi'i raglennu

Roedd y rhan hon o'r dadansoddiad yn canolbwyntio ar y system sifftiau amser gyflawn a'r system dyletswydd criwio dydd. Mae'r un system sifftiau ar waith yn y tri Gwasanaeth Tân ac Achub, gyda 2 sifft ddydd sy'n para 9 awr (0900 - 1800) wedi'u dilyn gan 2 sifft nos sy'n para 15 awr (1800 - 0900), wedi'u dilyn gan 4 diwrnod i ffwrdd.

Mae hyd y sifftiau criwio dydd a'r amseroedd dechrau a gorffen yn wahanol yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithredu 4 sifft sy'n para 10 awr yr un, wedi'u dilyn ar unwaith gan 14 awr o gyflenwi yn ôl y galw, wedi'u dilyn gan 4 diwrnod i ffwrdd. Mae'r sifft ddydd yn dechrau am 1200 ac yn gorffen am 2200.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gweithredu 4 sifft ddydd sy'n para 9 awr 30 munud yr un, wedi'u dilyn ar unwaith gan 14 awr a 30 munud o gyflenwi yn ôl y galw, wedi'u dilyn gan 4 diwrnod i ffwrdd. Mae'r sifft ddydd yn dechrau am 0830 ac yn gorffen am 1800 (9 awr 30 munud o hyd).

Nid yw Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn gweithredu'r system dyletswydd criwio dydd ar hyn o bryd.

Er mwyn cynnal y dadansoddiad hwn, gofynnais i'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub ddarparu unrhyw ganllawiau oedd ganddynt yn ymwneud ag arferion gwaith gorsafoedd ar gyfer y systemau sifftiau a'r systemau criwio dydd, ac yn benodol, unrhyw fethodoleg sy'n cefnogi'r broses o neilltuo amser ar gyfer hyfforddiant risg-gritigol ac asesiadau cymhwysedd.

Nid oes unrhyw arferion gwaith ffurfiol ar waith yn unrhyw un o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub, er bod Cyfarwyddyd Gwaith ar gyfer Gweithdrefnau Gorsafoedd ar waith yn Ne Cymru sy'n nodi egwyddorion lefel uchel a chanllawiau i Swyddogion yr Wylfa eu dilyn. Mae pob Gwasanaeth Tân ac Achub yn ffafrio dirprwyo cyfrifoldeb i Swyddogion yr Wylfa ar gyfer gweithgarwch ar y sifft.

Yn hytrach nag arferion gwaith ffurfiol ar gyfer y gorsafoedd, darparodd pwyntiau cyswllt y Gwasanaethau Tân ac Achub daenlenni yn nodi manylion gweithgarwch nodweddiadol yn ystod y sifft ddydd a'r sifft nos.

Mae enghraifft o arferion gwaith nodweddiadol ar gyfer y system sifftiau wedi'i nodi isod.

| **System Ddyletswyddau Amser Cyfan y Shifft Dydd** | | |
|---|---|---|
| | | |
| Parêd | 9:00:00 | 09.10.00 |
| Cyfarpar anadlu, gwirio’r rhestr a chynnal archwiliadau ar gerbydau | 9:10:00 | 09:45:00 |
| Profion a gwaith cynnal a chadw a glanhau safonol | 9:45:00 | 11:00:00 |
| Egwyl | 11:00:00 | 11:15:00 |
| Hyfforddiant, ymarferion | 11:15:00 | 13:00:00 |
| Egwyl am ginio | 13:00:00 | 14:00:00 |
| Lleihau risgiau (ymweliadau Diogel ac Iach integredig, gwybodaeth risg sy’n benodol i’r safle, ymweliadau 72d) | 14:00:00 | 15:45:00 |
| Egwyl | 15:45:00 | 16:00:00 |
| Campfa/Hyfforddiant Corfforol | 16:00:00 | 17:00:00 |
| Glanhau safle a cherbydau, gwaith gweinyddu a pharatoi ar gyfer newid shifft | 17:00:00 | 18:00:00 |
| | | |
| | | |
| **System Ddyletswyddau Amser Cyfan y Shifft Nos** | | |
| | | |
| Parêd | 18:00:00 | 18:10:00 |
| Cyfarpar anadlu, gwirio’r rhestr a chynnal archwiliadau ar gerbydau | 18:10:00 | 18:45:00 |
| Hyfforddiant, ymarferion, neu leihau risgiau | 18:45:00 | 20:00:00 |
| Campfa/Hyfforddiant Corfforol | 20:00:00 | 21:00:00 |
| Egwyl i gael pryd o fwyd | 21:00:00 | 22:00:00 |
| Gwaith hanfodol / Gwaith rheolaidd y safle / Astudiaeth breifat | 22:00:00 | 0:00:00 |
| Diwedd y cyfnod ymateb | 0:00:00 | 7:00:00 |
| Gwaith glanhau rheolaidd | 7:00:00 | 8:00:00 |
| Brecwast | 8:00:00 | 8:30:00 |
| Gwaith glanhau rheolaidd | 8:30:00 | 9:00:00 |
| | | |

Mae'r hyn a gyflwynwyd gan bob Gwasanaeth Tân ac Achub yn dangos bod gweithgarwch wedi'i gynllunio drwy gydol y sifft ddydd. Ar y sifft nos, mae gweithgarwch wedi'i gynllunio rhwng 1800 a 2200. Wedi hynny, ceir cyfnod o ddwy awr ar gyfer naill ai gwaith hanfodol (amhenodol), arferion yr orsaf neu astudiaeth breifat wedi'i dilyn gan gyfnod gorffwys rhwng 0000 a 0700. Y cyfnod hwn o 9 awr ar y sifft nos yw'r unig gapasiti dros ben yn yr arferion gwaith, ac eithrio o bosibl, yr awr a hanner a neilltuir ar gyfer arferion glanhau ar ddiwedd y sifft nos. Hwn yw'r cyfnod tawelaf o safbwynt gweithgarwch gweithredol hefyd.

Mae enghraifft o arferion gwaith nodweddiadol ar gyfer y system criwio dydd wedi'i nodi isod.

| **System Ddyletswyddau Amser Cyfan Shifft y Criw Dydd** | | |
|---|---|---|
| | | |
| Parêd | 12:00:00 | 12:10:00 |
| Cyfarpar anadlu, gwirio'r rhestr a chynnal archwiliadau ar gerbydau. Profion a gwaith cynnal a chadw a glanhau safonol | 12:10:00 | 13:00:00 |
| Hyfforddiant ac ymarferion | 13:00:00 | 15:00:00 |
| Egwyl | 15:00:00 | 15:15:00 |
| Lleihau risgiau (ymweliadau Diogel ac Iach integredig, gwybodaeth risg sy'n benodol i'r safle, ymweliadau 72d) | 15:15:00 | 16:30:00 |
| Campfa/Hyfforddiant Corfforol | 16:30:00 | 17:30:00 |
| Egwyl i gael pryd o fwyd | 17:30:00 | 18:30:00 |
| Hyfforddiant, ymarferion, lleihau risgiau | 18:30:00 | 20:30:00 |
| Egwyl | 20:30:00 | 20:45:00 |
| Gwaith glanhau rheolaidd | 20:45:00 | 21:45:00 |
| Paratoi ar gyfer diwedd y shifft | 21:45:00 | 22:00:00 |

## Hyfforddi ac ymarfer

Mae'r amser a neilltuir ar gyfer hyfforddi ac ymarfer yn arferion gwaith y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yn amrywio rhwng 5 awr 30 munud i 6 awr fesul taith ddyletswydd yn y system sifftiau a rhwng 8 awr ac 16 awr fesul taith ddyletswydd yn y system criwio dydd. Y rheswm dros yr amrywiaeth hon yw bod cyfnodau o amser yn cael eu neilltuo yn yr arferion gwaith ar gyfer gweithgarwch hyfforddiant ac ymarfer neu leihau risg. Byddai'r ffigur uchaf ond yn cael ei gyflawni pe na bai unrhyw weithgarwch lleihau risg wedi cael ei gynnal yn ystod y sifft nos yn y system sifftiau, neu heb gael ei gyflawni o gwbl yn ystod y daith ddyletswydd pedwar diwrnod yn y system criwio dydd. Byddai hefyd ond yn cael ei gyflawni pe na bai unrhyw alwadau yn ystod y cyfnod hwn.

Ni fu modd i mi sefydlu'n bendant i ba raddau y mae gan y Gwasanaeth Tân ac Achub fethodoleg ffurfiol wedi'i dogfennu i gefnogi'r ffordd y caiff amser ei neilltuo ar gyfer hyfforddiant risg-gritigol. Er mwyn gwneud hynny, byddai angen cynnal Adolygiad Thematig ar wahân (ac rwy'n bwriadu gwneud hyn). Mae gan y tri Gwasanaeth Tân ac Achub systemau cofnodi, yn seiliedig ar amlderau cyfnodol ar gyfer hyfforddi ac asesu, ond nid oes methodoleg safonol yng Ngwasanaeth Tân ac Achub y DU sy'n nodi'r rhesymeg dros amlder yr asesiadau na'r cyfnod o hyfforddiant sydd ei angen er mwyn cynnal cymhwysedd mewn perthynas ag eitemau o gyfarpar neu drwy gymryd rhan mewn ymarferion safonol ac ymarfer technegau fel y nodir yn Llawlyfr Hyfforddi a Datblygu'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Heb fethodoleg safonol, dim ond fy marn broffesiynol y gallaf ei chynnig, sef nad wyf wedi fy argyhoeddi bod y 6 awr a neilltuir ar gyfer hyfforddi pob taith ddyletswydd yn system sifftiau'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn debygol o fod yn ddigonol i ddiwallu'r holl anghenion asesu a hyfforddi risg-gritigol, gan gynnwys gwybodaeth weithiol o'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol (NOG). Rwy'n nodi hyn gan gydnabod bod pob diffoddwr tân yn ymgymryd â hyfforddiant ffurfiol mewn criw a/neu hyfforddiant oddi ar y sifft ynghyd â chyrsiau Offer Anadlu ac Ymddygiad Tanau Adran gorfodol rheolaidd.

Mae cwmpas yr NOG sy'n sail i'r wybodaeth ategol hanfodol i bob diffoddwr tân yn sylweddol. Mae'n rhaid bod gan ddiffoddwyr tân ddealltwriaeth dda o'r holl wybodaeth am ddigwyddiadau, peryglon a mesurau rheoli a geir yn yr NOG. Gan fod yr NOG yn gymharol newydd ac yn parhau i esblygu, mae Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru ac yn wir yn y DU yn dal i feithrin dealltwriaeth lawn o'r hyn y mae'n ei olygu o ran y galw am hyfforddiant.

Mae angen i ddiffoddwyr tân hefyd fod yn gymwys yn y technegau i ddefnyddio pob darn o offer ar gyfarpar tân yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys pympiau ymladd tân, ysgolion, dulliau mynediad, offer anadlu, gweithio'n ddiogel ar uchder, deunyddiau peryglus, gwrthdrawiadau traffig ffyrdd ac offer achub dŵr. Mae'r galw am hyfforddiant i ddiwallu'r angen hwn yn sylweddol. Mae hyn yn dwysáu mewn gorsafoedd gyda chyfarpar arbennig fel Unedau Achub Trwm (Malpas a Wrecsam yn y dadansoddiad defnydd) a all gael llawer o eitemau ychwanegol.

Mae'r mater hwn mor bwysig, ac er mwyn gwneud cyfiawnder ag ef, rwy'n bwriadu cynnal Adolygiad Thematig o hyfforddiant risg-gritigol dros y misoedd nesaf.

Mae diffoddwyr tân ar ddyletswydd yn ôl y galw yn cael 2-3 awr o amser cyswllt yr wythnos wedi'i neilltuo fel rhan o’u contract er mwyn cynnal cymhwysedd ar draws y meysydd hyn i gyd, sef tua hanner yr hyn sydd ar gael i'w cydweithwyr amser cyflawn yn y system sifftiau. Fel y mae'r dadansoddiad o ddefnyddio cyfarpar yn ei ddangos, mae criwiau ar ddyletswydd yn ôl y galw hefyd yn cael eu galw i ddigwyddiadau go iawn yn llai aml, ac felly maent yn ennill llai o brofiad ymarferol. Nid yw hwn yn fater rwy'n bwriadu mynd i'r afael ag ef yma am ei fod yn rhy bwysig ac mae'n fater ynddo'i hun. Byddaf yn edrych eto ar hyn, fodd bynnag, fel rhan o Adolygiad Thematig i hyfforddiant risg-gritigol a nodwyd yn gynharach. Mae'n fwriad gennyf mai heriau cynnal cymhwysedd yn y system ddyletswydd yn ôl y galw fel y mae ar hyn o bryd fydd un o themâu canolog yr Adolygiad.

## Lleihau risg

Yn ogystal â darparu ymateb brys, mae dyletswydd ar y Gwasanaeth Tân ac Achub i atal tanau a hyrwyddo diogelwch tân, a chasglu gwybodaeth risg i gefnogi ymateb pendant ac effeithiol. Mae hyn yn gofyn i ddiffoddwyr tân weithio i ffwrdd o'r orsaf ar sail rota ac yn rheolaidd ar ymweliadau casglu SSRI, ond hefyd ar weithgareddau eraill fel archwiliadau diogelwch tân, arolygiadau hydrantau ac ymweliadau diogelwch cartref. Nodwyd pwysigrwydd casglu SSRI gynhwysfawr a dibynadwy yn adroddiad Cam Un o ymchwiliad cyhoeddus Tŵr Grenfell, ac roedd ymhlith ei argymhellion.

Mae'r amser a neilltuir ar gyfer y gweithgareddau hyn yn arferion gwaith y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yn amrywio rhwng 4 ac 8 awr fesul taith ddyletswydd yn y system sifftiau a rhwng 10 ac 13 awr fesul taith ddyletswydd yn y system criwio dydd. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r ffigur uchaf ond yn cael ei gyflawni os bydd llai o hyfforddiant neu ymarfer wedi'i gynnal ac na fu unrhyw alwadau yn ystod y cyfnod amser.

Dylai gweithgarwch fod yn ddibynnol ar broffil risg ardal yr orsaf, fel nifer y safleoedd sydd angen ymweliad SSRI, a nifer y bobl sy'n wynebu risg benodol o dân a allai elwa ar ymweliad diogelwch cartref. Nid yw'n amlwg o arferion gwaith gorsafoedd fod amser yn cael ei neilltuo ar sail proffil risg. Rwy'n derbyn bod hyn yn cael ei ddirprwyo i Reolwyr yr Wylfa ond ymddengys i mi fod amser yn cael ei neilltuo yn seiliedig ar arferion ac ymarfer hirsefydlog ac yn cael eu cyfyngu gan yr amser sydd ar gael yn hytrach na bod y dyraniadau'n cael eu hysgogi'n bennaf gan angen yn seiliedig ar risg.

Yn fy marn broffesiynol, dylai mwy o amser gael ei neilltuo i weithgarwch lleihau risg nag sy'n digwydd ar hyn o bryd, o ystyried cwmpas a chymhlethdod yr amgylchedd adeiledig a'r ddemograffeg ledled Cymru.

## Materion yn ymwneud â manteisio ar gapasiti ychwanegol

Er mwyn manteisio'n ddiogel ar y capasiti yn y system sifftiau amser cyflawn, sef 2 sifft ddydd wedi'u dilyn gan 2 sifft nos wedi'u dilyn gan 4 diwrnod i ffwrdd (a elwir yn aml yn 2, 2, 4), byddai angen i'r Gwasanaeth Tân ac Achub drefnu bod sifftiau dydd a nos yn para 12 awr yr un, sy'n bosibl o fewn y paramedrau a bennir yn y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Amodau Gwasanaeth (Llyfr Llwyd) ar gyfer y system sifftiau. Mae hyn am y byddai'r goblygiadau o ran risg a blinder sy'n gysylltiedig â rhaglennu gwaith i gyfnod gorffwys y sifft nos bresennol yn annerbyniol i ddiffoddwyr tân a'r rhai y maent yn ceisio'u diogelu wrth ymateb i argyfyngau.

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn llunio canllawiau i gyflogwyr ar waith sifft, gan gynnwys y camau i'w cymryd i leihau blinder a risg ('HSG 256 Managing shift work: Health and safety guidance'). Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r arferion gorau mewn perthynas â hyd sifftiau a seibiannau rhwng sifftiau. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi creu adnodd cyfrifo sy'n pennu sgoriau Blinder a Risg ar gyfer systemau sifft. Mae'r adnodd cyfrifo wedi cael ei dynnu oddi ar wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ddiweddar; fodd bynnag, gallai Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru ofyn i un o'r nifer o'r Gwasanaethau Tân ac Achub Lloegr sydd â phrofiad o ddefnyddio'r adnodd hwn, gynnal y dadansoddiad hwn ar ei ran.

Mae sawl Gwasanaeth Tân ac Achub yn Lloegr wedi cyflwyno sifftiau 12 awr yn y system sifftiau amser cyflawn er mwyn gwella cynhyrchiant ac, ar yr un pryd, fynd i'r afael â materion yn ymwneud â blinder a risg. Cyflawnwyd hyn drwy droi at y Panel Cynghori ar Ddatrysiadau (RAP) wedi'i hwyluso drwy fecanweithiau NJC.

Mae canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cynghori na ddylai sifftiau bara mwy nag 8 awr. Gallai Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru ystyried cyflwyno system newydd â sifftiau 8 awr o hyd er mwyn rheoli materion blinder a risg ymhellach, ac sy'n bodloni egwyddorion y system sifftiau a nodir yn y Llyfr Llwyd. Pe bai Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru yn bwriadu ystyried sifftiau 8 awr, gellid cyflawni hyn drwy droi at Banel Cynghori Technegol NJC (TAP) pe na byddai modd sicrhau setliad wedi'i drafod â'r cyrff cynrychioliadol.

Mae'r dadansoddiad yn dangos nad oes unrhyw gapasiti heb ei ddyrannu yn y system criwio dydd amser cyflawn bresennol am fod gweithgarwch wedi'i raglennu drwy gydol y sifft. Mae arferion gwaith criwio dydd yn cynnig mwy na dwywaith yr amser a neilltuir ar gyfer gweithgarwch hyfforddiant, ymarfer a lleihau risg nag yn y system sifftiau. Fodd bynnag, mae'r Llyfr Llwyd yn pennu 7 awr wrth gefn o'r 42 awr yr wythnos a gontractir o gyfeiriad cartref yn y system criwio dydd. Er mwyn cyflawni 42 awr yr wythnos dros gyfnod cyfeirio 8 diwrnod, byddai angen i sifftiau bara 12 awr. Yn ymarferol, mae'r 7 awr wrth gefn gartref yn arwain at sifftiau 10 awr (gan gydnabod 9 awr 30 munud yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru).

Mae nifer o Wasanaethau Tân ac Achub yn Lloegr wedi cyflwyno sifftiau dydd 12 awr gan ddefnyddio systemau dyletswydd criwio dydd er mwyn gwella cynhyrchiant. Cyflawnwyd hyn drwy droi at y Panel Cynghori Technegol (TAP), wedi'i hwyluso drwy fecanweithiau NJC.

Byddai unrhyw newidiadau i'r systemau criwio dydd a sifftiau presennol yn sylweddol i ddiffoddwyr tân a byddai angen iddynt fod yn destun ymgysylltiad llawn â'u cynrychiolwyr drwy'r NJC. Gall prosesau'r NJC fod yn ddwys iawn o ran adnoddau a chymryd llawer o amser i'w cwblhau.

***Argymhelliad 1:*** *bod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn adolygu'r system sifftiau bresennol i nodi'r ffordd orau o fanteisio ar y capasiti ychwanegol a ganfuwyd yn yr adroddiad hwn er mwyn cynyddu gweithgarwch hyfforddiant, ymarfer a lleihau risg. Dylid gwneud hyn, p'un a ystyrir ehangu'r rôl ai peidio*

***Argymhelliad 2****: bod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn adolygu'r system sifftiau bresennol ac unrhyw system sifftiau newydd yn erbyn canllawiau 'HSG 256 Managing shift work: Health and safety guidance' er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i'r goblygiadau o ran blinder a risg*

***Argymhelliad 3:*** *bod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn cynnal dadansoddiad o ofynion gweithgarwch hyfforddiant, ymarfer a lleihau risg yn seiliedig ar risg ac yn neilltuo cyfnodau o amser i bob un o fewn fframwaith arferion gwaith gorsaf ffurfiol. Dylid gallu cyfnewid y cyfnodau amser hyn yn unol â disgresiwn Swyddogion yr Wylfa er mwyn sicrhau hyblygrwydd priodol*

Dylid nodi yng nghyd-destun ehangu'r rôl a gweithgarwch atal cwympiadau yn benodol, y byddai'r gweithgarwch hwn fel arfer yn cael ei integreiddio i ymweliad diogelwch tân yn y cartref. Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu y bydd yr ymweliad yn cymryd mwy o amser i'w gwblhau ac felly oni fydd mwy o amser yn cael ei neilltuo yn yr arferion gwaith, bydd nifer gwirioneddol yr ymweliadau, gan gynnwys agwedd diogelwch tân yn y cartref craidd yr ymweliad, yn lleihau. Er mwyn sicrhau effaith sylweddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mae'n debygol y byddai angen i nifer yr ymyriadau fod yn sylweddol; felly, ni ddylid tanamcangyfrif yr amser ychwanegol y bydd ei angen yn sgil gweithgarwch atal cwympiadau.

Dylai fod yn bosibl meintioli costau cyfle'r ymyriadau hyn drwy luosi cyfradd fesul awr y criw â faint o amser a dreulir ar weithgarwch diogelwch yn y cartref (gan gynnwys atal cwympiadau). Gallai'r budd fod yn anos ei feintioli ond dylai arwain at lai o achosion o gwympiadau yn y cartref, ac felly llai o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty a llai o ddibyniaeth ar ofal hirdymor. Byddai hyn yn rhoi arwydd i gydweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol o werth unrhyw fuddsoddiad yn y maes hwn.

## Dadansoddiad o weithgarwch i ffwrdd o'r orsaf nad yw'n ymwneud â digwyddiadau

Roedd y dadansoddiad hwn yn canolbwyntio ar yr amser a gaiff ei dreulio ar weithgarwch i ffwrdd o'r orsaf nad yw'n ymwneud â digwyddiadau. Fel arfer, gweithgarwch lleihau risg yw hyn (SSRI, gwiriadau diogelwch yn y cartref, ymweliadau ag ysgolion ac ati) neu hyfforddiant ac ymarfer mewn lleoliadau i ffwrdd o'r orsaf.

I ddechrau, gofynnais i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ddadansoddi codau statws gweithgarwch i ffwrdd o'r orsaf yn eu systemau galwadau, a fyddai'n dangos yr amser yr oedd pob cyfarpar yn cael ei ddefnyddio ar bob gweithgarwch penodol. Wrth ymchwilio ymhellach, gwelwyd nad oedd swyddogaethedd systemau galwadau un o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yn ei gwneud yn bosibl i gynnal yr adolygiad hwn (a fyddai'n cael ei gyflawni drwy godio pob gweithgarwch unigol).

Yn lle hynny, gofynnais i'r Gwasanaeth Tân ac Achub gynnal dadansoddiad o gyfanswm yr amser fesul cyfarpar a dreulir ar weithgarwch i ffwrdd o'r orsaf, am y byddai hyn o leiaf yn fy ngalluogi i drionglu'r gweithgarwch gwirioneddol â'r gweithgarwch a ragwelir a ddarperir ar daenlenni arferion gwaith gorsafoedd, y byddai data WAST yn cael eu troshaenu drosto.

Cynhaliodd y tri Gwasanaeth Tân ac Achub ymchwiliadau trylwyr i'w systemau i weld a fyddai modd gwneud hyn. Daeth yn amlwg y byddai'r gwaith sylweddol y byddai angen ei wneud i gael gafael ar yr wybodaeth hon, yn fy marn i, yn anghymesur i'r budd cysylltiedig posibl. Felly, tynnais y cais hwn yn ôl ac atal yr elfen hon o'r adolygiad am y tro. Fodd bynnag, mae'r ffaith nad yw'r data hyn ar gael yn destun pryder o hyd, nid dim ond am ei fod yn llesteirio'r adolygiad, ond am y dylai’r Gwasanaeth Tân ac Achub, yn fy marn i, allu cael sicrwydd bod gweithgarwch o'r fath yn cael ei gynnal yn ddigon aml a bod amser priodol yn cael ei neilltuo ar ei gyfer.

***Argymhelliad 4:*** *bod y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymgorffori'r swyddogaethau yn eu system galwadau i ddyrannu codau statws i weithgareddau penodol (fel ymweliadau SSRI) er mwyn rhoi sicrwydd i reolwyr bod y gweithgareddau hyn yn cael eu cwblhau'n ddigon aml, ac er mwyn hwyluso dadansoddiad mwy manwl gywir o'r amser a gaiff ei dreulio ar y cyfryw weithgareddau.*


## Dadansoddiad o'r llwyth gwaith ychwanegol sy'n deillio o ddigwyddiadau WAST

Ymgysylltais â chydweithwyr yn WAST i gael mynediad at ddata ar ddigwyddiadau ataliad ar y galon y tu allan i'r ysbyty a chwympwyr nad ydynt wedi'u hanafu a ddigwyddodd yn ystod 2017/18 – 2019/20.

Roedd data WAST yn cynnwys cyfanswm y digwyddiadau, hyd y digwyddiad (wedi'i fynegi ar ffurf 'amser a dreulir gyda'r claf') ac amser y dydd y derbyniwyd yr alwad.


Roedd dadansoddwyr data Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi echdynnu a mapio'r data ar gyfer ardaloedd yr 18 gorsaf at ddibenion yr adolygiad. Gwnaethant hefyd lunio nifer o graffiau yn dangos data Cymru gyfan yr wyf yn eu defnyddio isod er mwyn cyflwyno'r darlun mwyaf cywir wrth droshaenu â data'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Mae'r graff isod yn dangos yr amser y mae'r parafeddygon yn ei dreulio gyda'r claf am y tair blynedd a gwmpesir gan yr adolygiad hwn. Hyd mwyaf cyffredin digwyddiad yw 31 - 60 munud wedi'u dilyn gan 61 - 90 munud.





Mae'r graff isod yn dangos digwyddiadau yn ôl amser y dydd am y tair blynedd a gwmpesir gan yr adolygiad hwn. Fel data'r Gwasanaeth Tân ac Achub, mae data WAST yn dangos niferoedd uwch o alwadau yn ystod y dydd na dros nos. Yn wahanol i ddata'r Gwasanaeth Tân ac Achub, mae'r oriau brig ar gyfer ataliad ar y galon y tu

allan i'r ysbyty a chwympwyr nad ydynt wedi'u hanafu rhwng 0700 - 1200, er bod nifer y digwyddiadau'n aros yn uchel drwy gydol sifft ddydd bresennol y Gwasanaeth Tân ac Achub.




Gall data WAST hefyd gael eu cyfuno â data galwadau'r Gwasanaeth Tân ac Achub. At ei gilydd, ledled Cymru, mae nifer y galwadau yn is am eu bod ond yn cwmpasu dau fath o ddigwyddiad ond mae'n amlwg bod nifer yr achosion o ataliad ar y galon y tu allan i'r ysbyty a chwympwyr nad ydynt wedi'u hanafu ar eu huchaf yn ystod y bore, er bod llai yn digwydd yn ystod yr oriau brig ar gyfer digwyddiadau tân, gyda'r nos.




At ei gilydd, mae data WAST yn awgrymu'r canlynol:

- Gallai'r llwyth gwaith ychwanegol posibl ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub fod yn sylweddol yn sgil ehangu'r rôl. Dros Gymru gyfan ar gyfer y cyfnod tair blynedd dan sylw, roedd 39,667 o achosion o ataliad ar y galon a digwyddiadau cwympo yn ogystal â'r 108,340 o ddigwyddiadau yr ymatebodd y Gwasanaeth Tân ac Achub iddynt. Yn ystod y cyfnod rhwng 0700 a 1000 yn benodol, roedd y galwadau hyn yn cyfrif am 75% neu fwy o alwadau craidd y Gwasanaeth Tân ac Achub. Ni fyddai'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd i bob digwyddiad WAST ond mae'r niferoedd yn dal i fod yn sylweddol.
- Roedd y mwyafrif o'r digwyddiadau iechyd (55% o achosion o ataliad ar y galon a 73% o gwympiadau) yn gofyn am bresenoldeb o hyd at 90 munud, sy'n dangos graddau'r llwyth gwaith ychwanegol.
- Gallai'r llwyth gwaith hwn fod yn anghymesur o uchel mewn ardaloedd gorsafoedd nad oeddent wedi'u cynnwys yn yr adolygiad. Er enghraifft, ymddengys fod data WAST yn dangos nifer mawr o ddigwyddiadau cwympo mewn ardaloedd â phoblogaeth gymharol oedrannus, fel rhai trefi ar arfordir Gogledd Cymru, a allai brofi nifer cymharol fach o ddigwyddiadau tân.
- Mae digwyddiadau iechyd wedi'i gwasgaru drwy gydol y cyfnod 24 awr, ond maent yn digwydd amlaf yn ystod oriau dydd, yn enwedig yn y bore. Mae hyn yn tanlinellu'r pwynt a wnaed yn gynharach, o ran yr angen i ryddhau capasiti yn ystod sifftiau dydd amser cyflawn y Gwasanaeth Tân ac Achub drwy symud nifer sylweddol o weithgarwch yn yr orsaf i gyfnod gorffwys y sifft nos.

## Cydnabyddiaethau

Hoffwn ddiolch i'r Swyddogion Arweiniol yn y tri Gwasanaeth Tân ac Achub, y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Dewi Rose a'r Rheolwr Grŵp Stuart Townsend o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru, y Rheolwr Ardal Craig Flannery o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Richard Fairhead o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru am eu cymorth yn ystod yr Adolygiad hwn.

Hoffwn ddioch hefyd i'r Swyddogion Arweiniol a enwebwyd i'n cefnogi drwy gasglu a dadansoddi data, ac yn benodol Pippa Hardwick a Rich Noble o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru am ddadansoddi data WAST ar ran y tri Gwasanaeth Tân ac Achub.

Ar gyfer data WAST, hoffwn ddiolch i Sonia Thompson, Cyfarwyddwr Gweithrediadau WAST, ac Adam Thomas, Uwch-ddadansoddwr Gwybodaeth WAST.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i Claire Davey, o Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru, am ei holl waith ar ddadansoddi defnydd digwyddiadau.

## Argymhellion

**Argymhelliad 1:** bod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn adolygu'r system sifftiau bresennol i nodi'r ffordd orau o fanteisio ar y capasiti ychwanegol a ganfuwyd yn yr adroddiad hwn er mwyn cynyddu gweithgarwch hyfforddiant, ymarfer a lleihau risg. Dylid gwneud hyn, p'un a ystyrir ehangu'r rôl ai peidio

**Argymhelliad 2:** bod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn adolygu'r system sifftiau bresennol ac unrhyw system sifftiau newydd yn erbyn canllawiau ‘HSG 256 Managing shift work: Health and safety guidance’, er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i'r goblygiadau o ran blinder a risg

**Argymhelliad 3:** bod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn cynnal dadansoddiad o ofynion gweithgarwch hyfforddiant, ymarfer a lleihau risg yn seiliedig ar risg ac yn neilltuo cyfnodau o amser i bob un o fewn fframwaith arferion gwaith gorsaf ffurfiol. Dylid gallu cyfnewid y cyfnodau amser hyn yn unol â disgresiwn Swyddogion yr Wylfa er mwyn sicrhau hyblygrwydd priodol.

**Argymhelliad 4:** bod y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymgorffori'r swyddogaethau yn eu system galwadau i ddyrannu codau statws i weithgareddau penodol (fel ymweliadau SSRI) er mwyn rhoi sicrwydd i reolwyr bod y gweithgareddau hyn yn cael eu cwblhau'n ddigon aml, ac er mwyn hwyluso dadansoddiad mwy manwl gywir o'r amser a gaiff ei dreulio ar y cyfryw weithgareddau.